

Nodiadau Cyfarfod 3 Grŵp Cynghori Cynulliad Natur y Bobl - Crynodeb

22 Tachwedd 2022

Crynodeb o'r Cyfarfod

This was the third meeting of the People's Assembly for Nature Advisory Group. The meeting was held online and had the following agenda:

- Diweddariad o Benwythnos 1
 - Adborth o grynodedb y cyfranogwyr
 - Rhannu datganiadau creu gweledigaeth
 - Holi am gyfleoedd gwirfoddoli
- Amlinelliad o of Penwythnosau 2 a 3 a'r adborth a gafwyd
 - Trafodaeth gan ganolbwyntio'n benodol ar Penwythnos 3
- Y diweddaraaf am y Sgwrs Genedlaethol
- Logisteg a'r camau nesaf
 - Cyfleoedd i arsylwi ac arsylwyr a argymhellir
 - Dyddiad y cyfarfod nesaf: Wedi'i newid i Ddydd Iau 19 Ionawr
- Unrhyw fater arall

Presennol yn y Cyfarfod

- Cadeirydd: Involve
- Aelodau'r grŵp cynghori: Aekus Kamboj, Sarah Hendry, Chloe Saltmarsh, Nadeem Perera, Meriwether Wilson, Anurag Deb, Hedd Pugh, Thomasina Miers, Dr Rebecca Lovell, Ali Morse, Miranda Geelhoed
- Arweinydd Academaidd: Nathalie Seddon

- Cynrychiolwyr tîm y prosiect o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, WWF a'r Prosiect Dinasyddiaeth Newydd

Ymddiheuriadau

Nick Halfhide, Russel De'ath, Tom Chigbo, Pete Smith, John Watkins, Tony Juniper

Crynodeb o'r drafodaeth

Ar ôl clywed crynodeb o benwythnos 1, rhoddodd y Grŵp Cyngori adborth manwl ynghylch Penwythnosau 2 a 3. Cafodd sylwadau penodol ynghylch sesiynau briffio siaradwyr ac awgrymiadau siaradwyr eu bwydo'n uniongyrchol i ddogfen dylunio Penwythnos 3 a helpu i lunio'r cynnwys. Dyma rai themâu a ddeilliodd o'r adborth hwnnw:

- Myfyrio ar y newid o ganolbwyntio ar ddefnydd tir i edrych ar newidiadau mewn deiet ym mhenwythnos 3 I archwilio'r ystod lawn o atebion yn ofalus
 - Ystyried defnydd arall o dir a'i effaith yn ogystal â'r dewisiadau pwysig y gall pobl eu gwneud
- Mae deiet yn faes cymhleth lle mae pobl yn gallu cael mwy o effaith i ryw raddau sy'n creu dewis mwy personol i'r pwnc
- Pa mor fanwl fydd y cynnwys yn mynd i mewn i thema deiet? Pa siaradwyr sydd am wneud cyflwyniad ar hyn?
- Rhoi ystyriaeth ofalus i'r ffordd mae cefndiroedd diwylliannol a phersonol yn effeithio ar ddewisiadau o ran deiet oherwydd gall hyn arwain at drafodaeth frwd
- Defnyddio fframwaith eang i osod cyd-destun defnydd tir, allforio/mewnforio, dibyniaeth gwlad a fforddiadwyedd - beth mae'n ei olygu i'r cynhyrchwyr bwyd?
- Cyflwyno gwybodaeth am ynni a sut rydym yn defnyddio tir i ddal darpariaeth ynni gan fod cymysgedd o ran cynhyrchu ynni a bwyd yn aml (e.e. ffermydd solar a gwynt ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd)

- Defnyddio cynnwys dŵr fel enghraifft i dynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â chydleoli
- Archwilio cymhlethdod y themâu a naws yr effeithiau ar wahanol grwpia
 - Sicrhau bod digon o amser i roi sylw digonol i hyn i gyd gan y bydd yn adlewyrchu'r cyfaddawd y bydd yn rhaid i bobl ei wneud
- Ystyried y tensiynau rhwng yr hyn y gallai pobl ddymuno ei weld ar lawr gwlad a'r hyn y gallai grwpiau o'r brig i lawr fel perchnogion tir ei ddymuno

Y Camau Nesaf

- Involve i rannu gwybodaeth Ddemograffig gychwynnol â grŵp cynghori o aelodau'r Cynulliad
- Y tîm dylunio i siarad â Hedd ynghylch siaradwyr Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ar gyfer Penwythnos 3
- Y tîm dylunio i siarad â Buzz Saltmarsh ynghylch garddwriaeth ar raddfa fac
- NCP i ddilyn ymlaen â Becca Lovell ar gyfer adolygu data Ch3